

Undod

Darllen: Effesiaid 4:1–6

Beth yn union yw undod Cristnogol? Onid ydi hi'n hen bryd i ni ddod i delerau â'r cysyniad hwn yn hanes Cristnogaeth? Mae'r dryswch yn codi o'n camddealltwriaeth o'r hyn yw Eglwys Iesu Grist, a'r methiant i wahaniaethu rhwng yr elfen allanol sefydliadol a'r elfen fewnol ysbrydol.

Edrychwn i ddechrau ar yr undod sydd eisoes yn bodoli – yr undod ysbrydol sy'n ein dal wrth ein gilydd. Dyma'r undod sy'n cofleidio pawb sy'n caru Iesu Grist, er gwaetha'r labeli enwadol. Mae Paul yn annog y Cristnogion i fyw yn deilwng o'r alwad, i fod yn 'ostyngedig ac addfwyn ... gan oddef eich gilydd mewn cariad' (Effesiaid 4:2). Yna, mae'n mynd rhagddo, 'Un corff sydd, ac un Ysbryd, yn union fel mai un yw'r gobraith sy'n ymhlyg yn eich galwad; un Arglwydd, un ffydd, un bedydd, un Duw a Thad i bawb' (4–6). Yr hyn sy'n amlwg yng ngeiriau Paul yw nad rhywbeth i'w gynhyrchu yw'r undod hwn ond rhywbeth i'w gynnal a'i gynyddu'n gyson. Mae'r undod hwn eisoes yn bodoli trwy waith yr Ysbryd Glân. Yr hyn mae'n rhaid i ni ei wneud yw ei ddiogelu a'i amlygu yn ein bywydau trwy garu a cherdded llwybr gostyngeddwydd. Ffaith ganolog yr undod hwn yw 'Un Arglwydd', a dyma graidd undod ysbrydol yr Eglwys. Mae'r Eglwys yn un am fod ei Harglwydd yn un, ac mae'r rhai sy'n un ag ef hefyd yn un â'i gilydd. Wrth i ni gyfarfod ag aelodau o eglwysi ac enwadau eraill, cofiwn ein bod yn un yn yr Arglwydd.

Yn ddiweddar, bîm yn sgwrsio â gŵr oedd yn feirniadol iawn o bregethu cyfoes. Roedd o'r farn bod y mwyafrif o bregethwyr yn paratoi'n drylwyr ac yn saernïo'u neges yn drefnus. Ond y gwendid mawr yn ei farn ef oedd sut i gymhwyso'r neges. Felly, gofynnwn sut mae cymhwyso'r neges hon? Dyma rai awgrymiadau.

Pa mor gryf ydi ein ffyddlondeb a'n teyrngarwch i Iesu Grist? Os ydym yn byw yn agos at Iesu, byddwn yn byw yn nes at ein cyd-ddynion. Ond

dydi byw yn agos atyn nhw ddim yn ddigon; mae'n rhaid eu caru. Ac mae hyn yn ein harwain at y cam nesaf, sef arddangos cariad brawdol. O dro i dro, byddwn ar adegau'n wrthwynebus a gelyniaethus at ein gilydd – 'Pwy mae hon a hon yn sêd fawr Bethel yn feddwl ydi hi?' ac 'Mae aelodau Seion yn meddwl mai dim ond y nhw sy'n Gristnogion'. Dydi agweddau dilornus fel hyn ddim yn mynd i helpu o gwbl.

Chwiliwn am bob cyfle i ymuno â Christnogion eraill yn y fro er mwyn dod i'w hadnabod yn well a chydweithio ar wahanol brosiectau. Bydd cynnal oedfaon ar y cyd o gymorth mawr, yn enwedig oedfa Gymun, a chael aelodau o'r gwahanol eglwysi i arwain yr addoliad. Yn hytrach na chodi amddiffynfeydd i'n heglwys ni a'n henwad ni, y gwaith hanfodol ydi dymchwel y rhagfuriau yn enw yr 'Un Arglwydd'. Awgrymiadau digon syml ydi'r rhain, ond ymdrechwn i'w gweithredu.

Myfyrdod pellach:

Dadansoddwch yn ofalus gyflwr yr eglwysi yn eich bro chi.

Pa gamau ymarferol fedrwn ni eu cymryd i ddod i adnabod ein gilydd yn well?